


# CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref  
Ffordd Wynnstay  
RHUTHUN  
LL15 1AS  
Ffôn: (01824) 703797  
e-bost: [clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk](mailto:clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk)



Town Hall  
Wynnstay Road  
RUTHIN  
LL15 1AS  
Tel: (01824) 703797  
e-mail: [clerc@ruthintowncouncil.gov.uk](mailto:clerc@ruthintowncouncil.gov.uk)

*Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams*

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

14 Mawrth 2016

At Faer y Dref a Chynghorwyr  
**Cyngor Tref Rhuthun**

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi fynychu Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos LUN, 21 MAWRTH 2016 am 7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yno yn yr agenda isod.

Yn gywir

*Sandra Williams*

Sandra Williams  
**Clerc y Dref**

## **AGENDA**

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
2. **DATGAN BUDDIANNAU**  
Datgelu buddiannau personol ac ariannol mewn eitemau busnes a restrir isod.
3. **ADRODDIAD Y MAER**
4. **ADRODDIADAU'R AELODAU**
5. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**  
Derbyn a mabwysiadu fel cywir gofnodion Cyfarfod Arferol y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2016.
6. **MATERION YN CODI**
7. **PWYLLGOR CYNLLUNIO**  
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2016 (copi gwyrdd).
8. **PWYLLGOR AMWYNDERAU**  
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2016 (copi melyn).

**9. CYTUNDEB TORRI GLASWELLT 2016**

Ystyried argymhelliad aelodau'r Pwyllgor Amwynderau wnaeth ymweld â Chanolfan Gymuned Llanfwrog, i ddyfarnu'r cytundeb torri glaswellt 2016 i Gwmni Budd Cymunedol Llanfwrog, sefydliad nid er elw.

**10. YMGYRCH TACLUSO'R DREF**

Nodi mai dyddiad Ymgyrch Tacluso'r Dref 2016 fydd dydd Sadwrn, 30 Ebrill 2016.

**11. DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y PROSIECT PLANNU HADAU BLODAU GWYLLT YNG NGHANOLFAN GREFFT RHUTHUN**

Derbyn diweddariad oddi wrth Jane Gerrard, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Grefft Rhuthun, ynghylch plannu hadau blodau gwyllt.

**12. DIWEDDARIAD YNGHYLCH CAIS GRŴP CADWRAETH CASTELL RHUTHUN I CADW**

Derbyn diweddariad ynghylch cais y sefydliad uchod i CADW am gyllid, ac ystyried y cais i gyfraniad arfaethedig Cyngor Tref Rhuthun gael ei gario trosodd i flwyddyn ariannol 2016/17.

**13. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER**

Derbyn ac ystyried enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer 2016/17.

**14. IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL**

Trefnu dyddiad i'r Is-bwyllgor Craffu Ariannol gyfarfod. Aelodaeth: Y Cyngorwyr Stephen Beach, Elisabeth Culshaw, June Derry a Menna Jones ynghyd â'r Maer a'r Dirprwy Faer.

**15. GOHEBIAETH**

Derbyn a nodi'r eitemau gohebiaeth isod:

- i. Llythyr oddi wrth Sarah Stubbs BA (Anrhydedd) MSc MRTPI, Prif Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch cyflwyno newidiadau i'r system rheoli datblygu gan Lywodraeth Cymru (copi glas).
- ii. Llythyr oddi wrth Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol ynghylch y Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol (copi pinc).
- iii. Llythyr oddi wrth Leighton Andrews AC, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghylch Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (copi gwyrdd).
- iv. Unrhyw ohebiaeth arall.

**16. DATGANIAD ARIANNOL**

Derbyn a mabwysiadu datganiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 29 Chwefror 2016 (copi melyn).

**17. CYFRIFON I'W TALU**

Cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

865	Fineline	500 pennawd llythyr A4 dau liw	*	137.86
866	Cyngor Sir Ddinbych	Ad-daliad benthyciad y parc sgrialu rhif 5 (o 7)		7,880.00
867	Cronfa Bensiwn Clwyd	Cyfradd cyfraniad cyflogwr cynllun pensiwn newydd – un cyflogai	*	1,080.00
868	Sandra Williams	Ad-daliad am brynu'r enwau gwefannau visitruthin.wales a visitrhuthun.cymru	*	157.04
869	Sandra Williams	Ad-daliad am brynu bagiau siopa cotwm a beiros gan Redbows Ltd ar gyfer noson lansio'r wefan	*	516.00
870	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	108.00
871	Cyllid y Wlad	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		259.43

(Mae'r eitemau a ddynodir â \* uchod yn cynnwys TAW adferadwy gwerth £315.15)

**18. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cadarnhau nos Lun, 25 Ebrill 2016, fel dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

**RHAN DAU**

**19. CYFLOG CLERC Y DREF**

Derbyn manylion am gyflog Clerc y Dref (copi pinc).